**NODYN CYFARFOD IS-GRWP YMCHWILIAD STEPHEN LAWRENCE, DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2000**

**Yn bresennol**

Richard Edwards, AC
Helen Mary Jones, AC
David Melding, AC
Charles Willie, Yr Uned Polisi Cydraddoldeb
Andrew George, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Julie Bragg, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau

1. Ystyriodd y grwp bapur a ddarparwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau ar y manteision a'r anfanteision o ddod yn is-grwp ffurfiol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Cytunwyd y byddai'n well gweithio fel is-grwp anffurfiol gan y byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i waith y grwp, gan barhau i dderbyn arweiniad gan y prif bwyllgor a fyddai hefyd yn cymeradwyo ei ddulliau gweithredu a'i benderfyniadau. Cytunodd y Pwyllgor a'r grwp ar y dull hwn o ymdrin ag Adroddiad Stephen Lawrence, i sicrhau na fyddai gweithio'n anffurfiol yn arwain at danseilio'r statws a roddwyd i'r gwaith ar yr adroddiad gan y Pwyllgor a'r Swyddogion. Gellid ailystyried y penderfyniad hwn yn ddiweddarach petai'r angen yn codi.

2. Yna ystyriodd y Pwyllgor beth yr oedd angen iddo'i wneud, a sut i gyflawni hyn. Y prif fater oedd ystyried argymhellion yr Adroddiad ar addysg. Petai'r cwricwlwm diwygiedig Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cael ei gyflwyno ym mis Medi, sef y bwriad ar hyn o bryd, yna byddai'n rhaid i'r grwp edrych ar ba newidiadau y credai eu bod yn angenrheidiol ar gyfer yr adolygiad o'r cwricwlwm sydd i'w gynnal ym mis Ionawr 2001. Holodd yr Aelodau a oedd yn rhy hwyr bellach i gyflwyno newidiadau a fyddai'n dod i rym ym mis Medi. Cynigiwyd cyflwyno'r farn hon i'r Ysgrifennydd dros Addysg a Phlant a'r swyddogion a fyddai hefyd yn bresennol yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar 23 Mawrth. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried swyddogaeth y Comisiynydd Plant newydd i Gymru yn y trafodaethau ar yr Adroddiad. Byddai angen cyfeirio hyn yn ôl at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn iddynt ystyried y mater.

3. Canolbwyntiodd y drafodaeth ddilynol ar y gweithgor o swyddogion a fyddai'n ystyried y cynnydd wrth weithredu argymhellion Adroddiad Stephen Lawrence. Cytunwyd y byddai'n rhaid i awdurdod ffurfiol y Pwyllgor llawn fod yn sail ar gyfer cyflwyno cynnig i'r Weithrediaeth ar gyfer sefydlu grwp o'r fath. Yn y cyfamser, byddai Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau'n hysbysu'r adrannau a fyddai'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r mater. Yna byddai'n rhaid i'r adrannau hynny benderfynu faint o swyddogion fyddai'n aelodau o'r grwp a sut i sicrhau cyfraniad gan ACCAC ac ESTYN, petai'r Pwyllgor yn cytuno â'r argymhelliad. Byddai'r gweithgor yn paratoi

deunydd i'r is-grwp ei archwilio a chyflwyno sylwadau arno, cyn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor er mwyn iddo'i gadarnhau. Byddai cylch gwaith y gweithgor yn cael ei ddarparu er mwyn i'r is-grwp ei ystyried ar ôl y cyfarfod o'r Pwyllgor. Byddai nodyn o gyfarfod heddiw yn cael ei osod gerbron y Pwyllgor er mwyn iddo'i gymeradwyo yn ei gyfarfod nesaf, cyn dechrau ar y broses ffurfiol o sefydlu'r gweithgor.

4. Mae cyllid wedi cael ei ryddhau i alluogi'r Cynulliad i gyflogi person ar secondiad i weithio ar weithredu argymhellion Adroddiad Stephen Lawrence am gyfnod o 6 mis, gan ddechrau mae'n debyg ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf. Byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn ystyried nid yn unig sut i weithredu'r argymhellion o fewn busnes y Cynulliad ond hefyd sut y byddai awdurdodau eraill megis yr heddlu yn gweithredu'r argymhellion. Byddai'r person ar secondiad yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn pennu'n eglur beth sydd angen ei wneud a chan bwy, a byddai'n ymwneud â'r gynhadledd ar gynnydd yr Adroddiad a gynigiwyd gan Race Equality First i'w gynnal yn yr hydref.

5. Yr oedd swm o arian hefyd ar gael ar gyfer cyhoeddi canllawiau i ysgolion ar fesurau i atal hiliaeth. Byddai'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn paratoi papur ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer hyn, a'r gwahanol opsiynau ar gyfer defnyddio'r adnoddau hynny. Byddai'r is-grwp yn ystyried y papur mewn cyfarfod pellach a gynhelir cyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 13 Ebrill.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**
**Mawrth 2000**